CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Bodorgan ar Nos Fawrth, 15fed MAI 2018.

1 **Presennol:**
Cyng Gwilym Looms (Cadeirydd), Cyng Dafydd Jones, Cyng Gareth Evans, Cyng Andrew Hughes, Cyng Selwyn Williams, Cyng Myfyr Davies, Cyng Tim Owen, Cynghorydd Sirol Mr Bryan Owen.
Mr J Alun Foulkes (Clerc Dros Dro).

2 **Ymddiheuriadau:**
Cynghorwraig Gwen Burns, Cynghorydd Alwyn Rowlands, Cyng Jeff Hughes.

3 **Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.**

4 **Datgan Diddordeb.**

4.1 **Dim diddordeb wedi ei ddatgan.**

5 Derbyn Cofnodion Cyfarfod y Cyngor – 20 Mawrth 2018.

5.1 (Cofnod 12.1 Deffribiliwr Cymunedol) - angen cywiro'r cofnod lle dylir fod wedi ychwanegu a dweud fod y Cyngor yn fodlon i'r peiriant cael ei drosglwyddo iddynt. Yn dilyn hyn, derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod y cofnodion yn rhai cywir (DGJ/SW).

6 Materion yn Codi o'r Cofnodion.

6.1 Penderfynodd yr aelodau i benodi Mr Alun Foulkes fel Clerc llawn amser y Cyngor am cyfnod cychwynnol o 12 mis i'w hadolygu ym mis Rhagfyr 2018.

6.2 Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr oddiwrth y Cynghorwraig Gwen Burns yn ymddiswyddo oherwydd afiechyd. Diolchwyd iddi am y gwasanaeth i'r Cyngor ac y Clerc i anfon llythyr priodol iddi. Yn y cyfamser, gofynwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir er mwyn darparu a cychwyn y broses ar gyfer cyfethol aelod newydd yn unol a'r drefn cywir..

6.3 **Carafan, Malltraeth** – Y Clerc i gysylltu gyda Joanne Roberts o'r Adran Cynllunio gyda bwriad o anfon llythyr gorfodi i berchennog y Garafan.

6.3 **Carreg Ceiliog Bach** – adroddiad nad yw'r problem parcio ger y 'surgery' heb ei ddatrys. Clerc i gysylltu gyda Adran Priffyrdd er mwyn iddynt ymweld a'r safle.

6.4 **Cyfarfod gyda Archwdit Cymru** – dim adroddiad pellach ar hyn o bryd.

Arwyddo.....

6.5 **Hen Dogfennau y Cyngor** – dywedodd Cyng Dafydd Jones fod casglu hen ddogfennau'r Cyngor sydd mewn cynhwysydd yng Nghefn Cwmwd wedi ei cwblhau.

6.6 **Mandad y Banc** – dywedodd y Clerc y bydd yn gwneud trefniadau o gywiro mandad y Banc yn ogystal a gofyn am fantolen diweddaraf a llyfr siec newydd.

6.7 **Hysbysfyrddau Newydd** - penderfynwyd symud ymlaen gyda prynu hysbysfwrdd newydd a lleoli ger Mynwent Trefdraeth ac wrth cilfan bws, Bethel a clustnodi cyllid odditeu £500.00.

6.8 **Lon Gefn Groeslon Hermon i Aberffraw** – cwynio yn parhau ac oherwydd safon difrifol y lon - angen dod a hyn I sylw yr Adran Briffyrdd er mwyn ei ddatrys.

7 Ethol Cadeirydd Newydd y Cyngor – 2018/2019.

7.1 Cynnigwyd Mr Dafydd Jones fel y Cadeirydd newydd (AH/SW) ac fe etholwyd yn unfrydol.

7.2 Diolchodd Mr Gwilym Looms I'r aelodau ac I'r Cynghorwyr Sirol am y cymorth a dweud fod sefyllfa ariannol a dyfodol Y Ganolfan yn parhau gyda pryder.

7.3 Diolchodd Mr Dafydd Jones I Gwilym am ei holl waith mewn cyfnod anodd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

8 Ethol Is-Cadeirydd Newydd y Cyngor – 2018/2019.

8.1 Cynnigwyd Mr Alwyn Rowlands fel Is-Cadeirydd newydd (GE/MD). Gan fod Alwyn Rowlands ddim yn y cyfarfod, penderfynwyd na ddylai ethol yn swyddogol tan y cyfarfod nesaf.

9 Ethol IS BWYLLGORAU.

9.1 Pwyllgor Cyllid:
Cynghorwyr Dafydd Jones, Selwyn Williams, Alwyn Rowlands a Tim Owen.

9.2 Pwyllgor Rhandiroedd:
Cynghorydd Gwilym Looms a Selwyn Williams

9.3 Pwyllgor Elusennol:
Cynghorydd Myfyr Davies, Tim Owen a Jeff Hughes.

9.4 Pwyllgor Mynwentydd:
Cynghorydd Alwyn Rowlands, Gareth Hughes a Jeff Hughes.

9.5 Pwyllgor Llwybrau:
Cynghorydd Selwyn Williams a Andrew Hughes

Arwyddo..... Tudalen 2.

10 Materion Cyllid - Taliadau & Derbyniadau:

10.1 Taliadau.

10.1.1	Un Llais Cymru	–	Tal Aelodaeth 2018/19	-	£148.00
10.1.2	Elusen Ambiwlans Awyr Cymru	-	Rhodd	-	£100.00
10.1.3	Mon Grass Cutting	-	Cytundeb Torri Gwair	-	£1,000.00
10.1.4	Bodorgan Properties	-	Rhent Hanner Blwyddyn	-	£1,612.75

10.2 Derbyniadau

10.2.1	Cyngor Sir Ynys Mon	–	Priseb Cyntaf 2018/2019	£2,866.66

10.3 Archwiliad Mewnol.

10.3.1 Penodwyd Mr Alun Foulkes fel yr Archwilydd Mewnol ar gyfer cwblhau cyfrifon 2017-2018.

10.3.2 Gofyn ac ystyried penodi Cwmni I G Jones & Co, Llangefni fel Archwilydd Mewnol ar gyfer cwblhau cyfrifon 2018-2019.

10.4 Materion Eraill.

10.4.1 Yn dilyn cytuno talu Mon Grass Cutting (gweler cofnod 10.1.3), roedd cwyn ynghylch a torri mynwent Bethel ac ystyried dal unrhyw taliadau gorffennol yn nol petai y broblam yn parhau.

10.4.2 Cytunwyd rhodd S137 tuag at Gronfa Fynwent Eglwys Llangadwaldr - £150.00.

11 Derbyn Fantolen Ariannol y Cyngor 2017/2018.

11.1 Rhoddwyd eglurhad llawn o holl wariant a derbyniadau y Cyngor am y cyfnod ac fe cytunwyd yr aelodau i dderbyn y fantolen yn unfrydol.

11.2 Cytunwyd agor Cyfrif Cadw a trosglwyddo £10,000 iddo fel cronfa wrth gefn.

11.3 Cytunwyd arwyddo y Datganiad Flynyddol er mwyn anfon at BDO erbyn y dyddiad cau, sef 30 Mehefin 2018.

Arwyddo.....

12 Ceisiadau Cynllunio Newydd & Penderfyniadau Adran Cynllunio.

12.1 Dim Cais a Dim Penderfyniad wedi dod i law.

13 Materion Mynwentydd.

13.1 Dim yn codi.

14 Materion Priffyrdd.

14.1 **Maes Glas, Bethel** – oherwydd cytundeb hanesyddol, penderfynwyd yr aelodau fod yr amser wedi dod unwaith eto fod angen ail-codi'r a datrys y fater gyda Adran Briffyrdd y Cyngor Sir. Penderfynwyd gadael yn nhwylo'r Cadeirydd a'r Clerc.

14.2 **Cyrbau ger Joiners Arms** – Clerc i gysylltu gyda Adran Priffyrdd.

14.3 **Arwydd Dynodi Stesion Bodorgan** – Clerc i gysylltu gyda Adran Priffyrdd.

14.4 **Pont Teilwng – cwyn gordyfiant** – Clerc i ddwyn sylw yr Adran Briffyrdd.

15 Dyfodol yr Ysgol Gymuned

15.1 Rhoddodd Dafydd Jones adroddiad llawn diweddaraf i'r aelodau ers y cyfarfod agored. Y cam cyntaf fydd gwneud cais drwy y Loteri Cenedlaethol ymhen pythefnos ac mae Geraint Evans, cyn Prif Weithredwr Menter Mon yn ein cynorthwyo. Diolchwyd iddo gan yr aelodau am drefnu'r cyfarfod agored am yr holl waith sydd wedi ei wneud hyd yn hyn.

16 Adroddiad Ysgol Santes Ddwynwen.

16.1 Cafwyd adroddiad llawn oddiwrth Cyng Tim Owen sydd ar Pwyllgor Corff Cysgodol ac yr unig pryder ar hyn o bryd yw pryder niferod.

17 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Clowyd y cyfarfod 8:35pm – Cyfarfod nesaf 17.7.2018.

Arwyddo.....**Cadeirydd**.....17/7/2018.....**Dyddiad.**

Cyngor Cymdeithas Bodorgan

Cysoni 31.3.2018		£	18,316.95
		£	18,316.95

Derbyniadau		**Cyfanswm**
30 Ebrill 2018 - Priseb y Cyngor Sir	£ 2,866.66	
	£ 2,866.66	£ 2,866.66
20 Mehefin 2018 - Ffioedd Gosod Carreg		
Gwenda Edwards	£ 175.00	
	£ 175.00	£ 175.00
14 Mai 2018 - Rhandiroedd		
C Cresswell - Plot 4	£ 196.73	
J & M Cresswell - Plot	£ 179.96	
L R Thomas - Plot 9	£ 249.49	
Annwen Owen - Plot 7	£ 179.96	
AM & CP Hughes - Plot 2	£ 104.70	
Llyr Davies -	£ 188.55	
GW & EA Hughes	£ 124.33	
Tim Owen	£ 188.55	
Maldwyn Evans	£ 241.31	
	£ 1,653.58	£ 1,653.58

Taliadau	**Rhif Siec**	**Cyfanswm**
Mon Grass Cutting	100216	-£ 1,000.00
Bodorgan Properties	100217	-£ 1,612.75
Un Llais Cymru	100218	-£ 148.00
Elusen Ambiwlans Awyr	100219	-£ 100.00
Llangadwaldr Churchyard Fund	100220	-£ 150.00
Costau Banc		-£ 10.00
Cyfanswm yn weddill 30 Mehefin 2018.		**£ 19,991.44**

Cysoni Banc - 30 Mehefin 2018	**£**	**20,389.44**
Llai Sieciau nas Talwyd	**-£**	**398.00**
	£	**19,991.44**